

Y Trysor o'm Cwmpas

Pan oeddwn yn rocyn ifanc tua un ar ddeg oed ac yn byw yn Llangrannog bues ddigon ffodus i gael helpu pysgotwr lleol â'i gwch. Roedd fy nhad a 'nhad-cu'n forwyr trwy'u hoes ac yn y cwche pysgota roeddwn i'n hoffi bod hefyd. Felly, fel y soniais, daeth fy siawns innau i ddysgu yng nghysgod y pysgotwr sut i drin a halio'r cewyll cimwch a physgota am fecryll.

Dysgais am fywyd gwyllt ac enwau hyfryd yr arfordir sydd wedi aros yn fy nghof hyd y dydd heddiw. Adnabyddais y manau lle fyddem yn rhoi ein cewyll cimwch fel 'rhwng Trwyn Crou a Thraeth y Garclwyd (Gaerlwyd)' neu 'rhwng Carreg y Tŷ a Charreg Dol-y-Frân'. Cwmpais mewn cariad mawr ag Ynys Lochtyn wrth weld y 'bwledau duon' (y llurs a'r gwylog) yn heidio 'nôl a 'mlaen i'w clogwyni ac yng nghysgod Pen y Badell gerllaw clywais gri gwyllt y frân goesgoch am y tro cynta. Os nad oedd hynny yn ddigon cyffrous roedd y 'damej' gwyn patrymog dros ein siwperi yn dyst i allu aneliad y wylan goesddu a heidiai rownd y cwch o gyfeiriad Carreg Ifan! Heb amheuaeth bu'r pysgotwr yn ddylanwad arnaf ac ar fy ngwerthoedd a'm 'addysg' yn fy mlynnyddoedd cynnar. Tipyn nes ymlaen yn fy mywyd cefais bob 'whare teg' a chymorth gan y ffermwyr lleol yma yn sir Benfro, wrth iddynt adael imi groesi eu perci i astudio'r frân goesgoch yn ei chynefin. Wrth wneud fy nodiadau sylwais unwaith eto ar enwau'r pentir neu'r gilfach a'r ogof o'm cwmpas, megis Pen yr Afr, Pwll y Wrach, Godir y Gwyddau, Trwyn y Bwa. Dyma'r gic a'm ysgogodd i feddwl am ffordd o gyfleu yr holl enwau mewn dull weledol.


Mi es ati i lythrennu ar lechi. Pam ar lech? Wel, wrth ddarllen un o lyfrau'r diweddar Geraint Jenkins, dywedodd e fod y llechi oedd

yn cael eu dosbarthu gan y llongau hwylio o ogledd Cymru yn cael eu hadnabod fel 'sea slates'. 'Roedd y ffaith hynny yn ddigon i fwydo'r dychymyg, a 'gwelais' fy hun yn 'edrych' ar y llechi yn nofio o gwmpas yr arfordir a'r enwau arnynt! Bu rhaid i mi wireddu y cyfan a chefais damed o lwc – prynais nifer o lechi ail-law gan adeiladwr. Roeddent wedi bod ar do siop yn Aberteifi ers tua 1860, mae'n debyg.

I derfynu'r llith bach hwn hoffem roi fy niolch i'r morlo bach gwyn a thlws a ddewisodd beidio â chnoi bant fy llaw dde pan fues ddigon dewr neu ddwl i dreial smwddio ei ben ar Draeth y Garclwyd yn 1955. Medrais gario 'mlaen â'm arlunio a'm llythrennu!

Wynmor Owen

[Os ydych am weld rhagor o waith hyfryd Wynmor, ewch i <http://wynmor-owen.co.uk/>]



Bagwyllydiart

Feddyloech chi erioed am y broblem sy'n wynebu awduron wrth iddyn nhw geisio dod o hyd i enw Cymraeg i'w roi ar dref neu bentref dychmygol? Mae angen un sy'n swnio'n Gymraeg ac eto'n ddigon gwahanol i'r rhai sy'n bod yn barod.

Os oes gennych chi ddychymyg praff, hwyrach na fydd hynny'n fawr o broblem. Ond os yw'n fater sy'n peri i chi grafu'ch pen, efallai y gall yr enw Bagwyllydiart gynnig trywydd i'ch ysbrydoli.

Nawr, nid lle dychmygol yw Bagwyllydiart. Mae'n bentref sy'n bod, ond yn wahanol i'r mwyafrif llethol o bentrefi sydd ag enw Cymraeg arnyn nhw, mae'n llechu dros y ffin yn Lloegr ryw dair milltir o Bontrilas, y pentre yr ewch chi heibio iddo wrth deithio ar yr A465 o Henffordd i'r Fenni.

I'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg, mae'n debyg, lleoedd go ddiether yw'r ardaloedd yn y Canolbarth sydd am y ffin â Lloegr. Oherwydd cysylltiadau teuluol – roedd tad di-Gymraeg fy mam yn 'proud Radnorshire man', chwedl yntau – mae i'r gorau ryw apêl arbennig i mi. Os teithiwch chi tua'r gogledd drwy bentref Llys-wen ar yr A470, fe ddewch chi ymhen ychydig filltiroedd at ffordd fach sy'n troi at y bont grog dros Afon Gwy. Pont eithriadol o gul yw hi a bydda i bob amser yn mentro'n bwylllog drosti, nid yn gymaint am fy mod yn ofni gwendid ynddi ond am fod yr olygfa dros Afon Gwy mor braf.



Ymhen ychydig wedyn rhaid croesi pont yr hen reilffordd a throi i'r chwith gan ymuno maes o law â'r ffordd sy'n rhedeg ar hyd llwybr yr hen lein i Raeadr Gwy a thu hwnt. Bron gyferbyn â phentref Erwd ar y lan orllewinol, trowch i'r

dde a dringo'r tyle serth allan o Ddyffryn Gwy. Fe gyrhaedddech chi fro ac iddi naws go arbennig ac un sy'n dal i arddel ei Chymreictod o ran enwau ei ffermydd a'i phentrefi. Sŵn digon cyfarwydd sydd i amryw byd ohonynt nhw (Pencaenewydd, Llanbedr, Groesvaen, Rhos-goch a'r Hergest hwnnw a anfarwolwyd mewn record gan Mike Oldfield) ond mae eraill yn fwy annisgwyl (Great Gwern-y-bwch, Llan-pica, Llan-Shon-Dorthy).

Mae'n werth oedi am eiliad i astudio mapiau'r Arolwg Ordnans a chraffu ar enwau'r bröydd anghyfarwydd hyn gan sylwi'n arbennig ar y ffin fras rhwng enwau Cymraeg a Saesneg y ffermydd. Dyna i chi bentref Huntington ac o'i amgylch ffermydd ag enwau fel Llanbella a Phenllan cyn i chi groesi Afon Arwy a dod at y rhyfeddod hwnnw 'Burnt Hengoed'.

Mae'n debyg mai o bentref Llanfair Llythynwg (Gladestry yn Saesneg ond 'Glastry' yw'r ynganiad lleol) y cychwynnodd un o hynafiaid fy mam i'w phriodas, ac o amgylch y pentre cewch enwau fel Gobe (?!), Wain-wen, Gwern-dyfnant, Llantrwssa a Llan-Howell (wyddwn i ddim fod Hywel Gwynfryn yn sant), a'r rheini'n gymysg â dau enw Saesneg digon cyffredin, Newhouse a Stone Farm, a dau ryfeddod arall, The Rabber ac Upper Rabber.

Sŵn go negyddol, mae arna i ofn, sydd i fferm o'r enw 'Cwmynace!' Pa mor gywir yw'r ffurfiau sydd i'w gweld ar fapiau'r Arolwg Ordnans, dim ond yr arbenigwyr all fentro dweud, ond mae i amryw byd o enwau Cymraeg gororau sir Faesyfed eu swyn arbennig. Dyw 'Bagwyllydiart', efallai, ddim yn perthyn yn gwbl dwt i'r categori hwnnw, ond os ydych chi'n chwilio am enw lle dychmygol fe dalai i chi chwilio ymhlith yr enwau hyfryd a gewch chi yno.

Berwyn Prys Jones

Y Llundun: © Hawfraint Jonathan Billinger a'i ailddefnyddio o dan drwydded Creative Commons

Cors Figan SN 598445

Mae Nant Eiddig yn codi ar fynydd Pencarreg, sir Gaerfyrddin ac yn llifo trwy Goed Eiddig i Deifi islaw Llanbedr Pont Steffan. Ceir trafodaeth ar 'Eiddig' gan R J Thomas yn *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (t 186), ond ni nodir enw tarddle'r nant. Nid yw enw'r tarddle ychwaith wedi ei nodi ar fapiau'r Arolwg Ordnans.

Mae Llyfr Degwm plwyf Pencarreg (1842) yn nodi enwau'r caeau canlynol yng nghyffiniau'r tarddle, bob un ohonynt yn cynnwys elfen sy'n gysylltiedig â dŵr tardd: 998 Cae pistyll; 1006 Cae ffynnon; 1015 Pant y pistyll.

Mae'r unig gofnod penodol y gwyddys amdano ar hyn o bryd sy'n enwi union darddle Nant Eiddig yn digwydd yn 1870 a hynny mewn nodyn ar linell o gerdd o waith bardd lleol gwan a chwbl anadnabyddus sef Camber (Thomas Beynon, Mountain Cottage, Pencarreg). Argraffwyd y gerdd yng Nghyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Caersalem, Parc-y-rhos, a gynhaliwyd Ddydd Gwener y Groglith, 1870. Dyma'r llinell ynghyd â'r nodyn:

*O dy darddle yn Nghorsfigan**

*Corsfigan, ydyw enw y ffynon o ba un y tardd yr Eiddig o honi, yr hon sydd ar fynydd Pencareg, a cherllaw y ffordd fawr sydd yn myned o Llanbedr-Pont-Stephen i Llanyddyfri. Nid yw ei hyd ond tua thair milldir, pyrd [sic] yr abera ar Teifi, ar ol ei thaith fer trwy gwm cul, ond prydferth, ac y mae yn hyfryd yr olwg arni o bentref Parc y Rhos, heibio pa un y rheda, hyd nes yr yfir hi gan y Teifi, tua milldir islaw capel Caersalem.

Mae'n anodd trafod yr enw hwn ym mhlwyf Pencarreg yn hollol foddhaol yn nifyg tystiolaeth ffynonellau eraill sy'n cynnwys yr enw.


Mae'r enw personol *Meugan* yn digwydd yn elfen mewn enwau lleoedd. Mae *Trefigan* (*Trefeugan*), sef 'Fferm Meugan' yn Llanrhian, sir Benfro. Mae *Llanfeugan* (*Llanfigan*, SO 0824), sef 'Eglwys Sant Meugan' ym Mrycheiniog. Yng Nghilgerran, sir Benfro, mae fferm o'r enw *Llan Feugan* ond gynt roedd capel wedi ei gysegru i'r sant yma. Ceir *Capel Meugan* ym Môn a choffeir Sant Meugan yn Llan-rhudd, sir Ddinbych.

Yr awgrym, felly, yw mai enw person a goffeir yn ail elfen *Cors Figan*.

Ynglŷn â'r bardd; yng Nghyfrifiad 1871 disgrifir Thomas J Beynon, 37 oed, Mountain Cottage, plwyf Llan-y-crwys fel 'Boarder' o ran ei berthynas â phenteulu Mountain Cottage, sef Mary Davies, ac fel 'Police Officer on leave' o ran ei alwedigaeth. ['Publican' oedd Mary Davies, 83 oed, a'i merch Jemima yn 'Attendant'. Gol.] Bellach aeth 'Mountain Cottage' yn 'Tafarn Jem'.

Diolch i Alun Jones, Parc-y-rhos, am dynnu fy sylw at y cyfeiriad i Gors Figan.

David Thorne



Golygyddol

Ym mhob pen mae piniwn. Beth yw'r piniwn yn eich pen CHI? Dywedwch wrthym yn enwauleoedd@gmail.com.

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn o anghenraid yn fyngiant o farn y Gymdeithas na'r Golygydd.

Cysodi / Typeset by: Ifor Williams

Editorial

What's your take on place-names?. Let us know at enwauleoedd@gmail.com.

Opinions expressed in this newsletter are not necessarily those of the Society or of the Editor.

Golygydd / Editor: Gareth A Bevan

Enwau yn gwneud stori

Dyfeisiwyd cymaint o straeon dros y blynyddoedd i esbonio enwau lleoedd nes y'u cydnabyddir fel *genre* neu ddsbarth o lôn gwerin ynddynt eu hunain a elwir yn straeon onomastig. Weithiau ceir stori i esbonio un enw a thro arall i gysylltu cyfres o enwau. Stori sy'n cysylltu nifer o enwau ar lethrau gogleddol Mynydd Bwlch Mawr uwchben Clynnog Fawr yn Arfon sydd gen i yma – stori lafar na welais erioed ei chyhoeddi yn unlle hyd yn hyn, am wn i.

Roeddem ni blant yn ymwybodol iawn o'r frwydr fawr fu ym Mron-yr-erw rhwng Gruffudd ap Cynan a rhyw elyn neu'i gilydd yn yr oes cyn yr oes o'r blaen (rhwng Gruffudd a Thrahaearn, Arglwydd Arwystli mewn gwirionedd, yn 1075) a bod Gruffudd wedi cael ei drechu a'i orfodi i ffoi i Iwerddon.

I ni oedd yn gyfarwydd â'r ardal roedd hynt a helynt Gruffudd wedi'r frwydr yn amlwg iawn o rai o enwau lleoedd y fro. Er enghraifft, ychydig dros hanner milltir i'r gogledd-orllewin o dyddyn bychan *Bron-yr-erw* (SH434484) mae fferm *Brysgyni* (SH427493), enw a gawsai ei ddehongli gennym ni i olygu *brys* Gruffudd o *gyni* y frwydr (ond o edrych yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, gwelaf mai 'brwydr' yw un o ystyron y gair hwn.) Ymlaen oddi yno ogylich y mynydd am ryw filltir a hanner, gan gadw yn agos at yr un uchder uwchlaw'r môr, mi ddewch i *Gorsyddalfa* (SH416473), sydd yn y pant rhwng mynyddoedd Bwlch Mawr a Gyrn Goch. Roedd yr enw yn adrodd cyfrolau: na, dim byd i'w wneud efo'r gorlan ddi-doli defaid wych sydd yno, ond yn hytrach lle cafodd Gruffudd

ei hun i drybini yr eildro pan gafodd ef a gweddillion ei fyddin eu dal gan y gelyn oedd, y tro hwn, wedi dod dros y mynydd i'w cyfarfod. Wrth lwc, cafodd Gruffudd waredigaeth drwy ffoi o'r gors i lawr ceunant *Cwmgwared* (SH409486) at y môr. Oddi yno i Iwerddon, gan ddychwelyd yn ddiweddarach i drechu ei elynion ac ailfeddiannu Gwynedd.

'Dwn i ddim faint o wirionedd, os o gwbl, sydd yn y stori hon am ddihangfa Gruffudd ond i ni blant roedd yn tanio ein dychymyg nes ein bod yn clywed cri'r milwyr a chleician cleddyfau yn gymysg ag adlais ein lleisiau ein hunain o greigiau Corsyddalfa a Chwmgwared.

Twm Elias



Manion

Eosiaid Gwlad y Gân

Diolch yn fawr iawn i ddechrau am gylchlythyr diddorol. Edrychaf ymlaen i'r dyfodol am eraill. Roeddwn yn darllen erthygl Duncan Brown ynglŷn ag Eosiaid Gwlad y Gân. Gwn ei fod yn dweud nad yw rhestr Melville Richards yn gyflawn o bell ffordd ond synnais nad oedd wedi rhoddi enw cartref Richard Robert Jones (Dic Aberdaron, 1780-1843) yn ei restr hefyd, gan fod Dic Aberdaron yn enwog iawn trwy Brydain bron yn y cyfnod yma. Roedd Dic yn byw mewn tyddyn bychan o'r enw Cae'r Eos nepell o Aberdaron. Does dim ond murddun yno heddiw ond mae plac llechen ar ochor y ffordd yn dangos lle yr oedd. **Tom Jones**

Llongyfarchiadau ar rifyn cyntaf Newyddlen y Gymdeithas Enwau Lleoedd. Difyr iawn. Mae'n darn am eosiaid yn mynd â fi'n ôl i tua 1950/51 (ni chofiaf yr union flwyddyn) yng Nglynceiriog pan ddeffrowyd fi tua un y bore gan fy rhieni, ac yna gorfod cerdded gyda nhw a'm brawd, am tua milltir a mwy, yn y glaw, i ganol coedwig er mwyn clywed yr eos. Fe safon ni yno, ni a llawer teulu arall, am oriau, a chanodd y bygar ddim nodyn! Yr oedd yn wybyddus fod eos wedi glanio yno, a chlywais recordiad ar dâp (hen recordydd sbŵl) yn festri'r capel Bedyddwyr. Bwriadaf fynd i chwilio'r papur lleol, yr Oswestry and Border Counties Advertiser, i ganfod y manylion. **Huw C Jones**

[S]ome years ago when the press reported one [nightingale] singing nightly in a wood in north-east Wales, so many people went to hear it that there was even a hot-dog stall in attendance. ... [T]he Welsh bards also celebrated this famous night songster though it is unlikely any of them ever heard it singing in Wales. Eos ...crept into place names that are still in use in districts where there are certainly no nightingales now and probably never were.

W Condry: The Natural History of Wales (1981) t 121

That lover of the lowland copse along river valleys, the Nightingale is confined to such habitats in [Monmouthshire and East Glamorgan]. ... A sweet bird song heard at night in the rest of Wales will most likely be either that of the woodlark, or the lively mimetic song of that Welsh nightingale – the sedge warbler.

R M Lockley: The Naturalist in Wales (1970) t 99

Dilyn cyngor doeth, yn ddiaw, a wnaeth yr eos na ddaeth i diroedd Cymru; a ninnau, a dreiddiodd trwy Gymru ... un annoeth.' Baldwin, Archesgob Caergaint (1188) yn ôl Gerallt Gymro

Enw Newydd

Yn aml mae rhywun yn newid enw tŷ neu dyddyn i enw hollol amherthnasol ac estron i'r ardal, ond yn Llanfaglan mae rhif 2 Tai Magdalen wedi cael enw newydd, sydd wedi rhoi gwên ar wyneb trigolion y pentref. Tua tair blynedd yn ôl bu farw un o gymeriadau poblogaidd y gymuned, Thomas (Twm) Roberts yn bell yn ei wythdegau, gŵr a oedd wedi ei fagu ac wedi byw yn y tŷ yma erioed, a'i rieni cyn hynny. Fe brynwyd y tŷ gan deulu lleol, ac fe'i moderneiddwyd drwyddo. Ar derfyn y gwaith hwn, fe welwyd enw newydd y tŷ, Tŷ Twm. **Ifor Williams**

Darlith

Traddodir pumed ddarlith goffa Merfyn Williams ar y testun 'Enwau Lleoedd mewn Barddoniaeth' gan y Prifardd Ieuan Wyn yn y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, am 7.30 pm, 10 Hydref 2012. Bydd paned ar gael ar ôl y ddarlith a chopïau o'r ddarlith ar werth.

Dau Enw Lle

Dyma ateb Hywel Wyn Owen i ymholiad am ddau enw lle yn sir y Fflint: *Llinegr*

Mae'r cofnodion cyntaf sydd gen i fel hyn: *Lynacre* 1301-2, *Linacr* 1312. Mae'r Cymreigiad i'w weld gyntaf yn 1663 fel *Llinegr*.

Enw sy'n tarddu felly o'r Hen Saesneg, sef *lin* 'flax' ac *æcer* 'acre'. nid o'r Gymraeg. Cymharer *Lynacre*, sir Gaerhirfryn. Mae'r Cymreigiad *Llinegr* wedi'i hwyluso trwy i'r gair Hen Saesneg *lin* gael ei fabwysiadu fel *llin* yn y Gymraeg yn annibynnol. Yn ddi-dorol, y Cymreigiad *Llinegr* sydd wedi goroesi; nid oes sôn am *Lynacre* ar ôl y 17 ganrif.

Talardy

Roedd *Talar* yn enw ar drefgordd yn Llanellwyr (*Talâr* 1560, *Talare* 1608 ac efallai ynghynt na hynny os gellir ymddiried yn *Talaard* 1292). Roedd Edward Lhuyd (Parochialia, c.1700) yn cyfeirio ato fel 'House of Note'. Diau mai'r un tŷ ydyw â'r lle y cyfeirir ato fel *Talardy* (1875). Ystyr *talar* yn wreiddiol oedd 'tâl â'r', h.y. 'pendraw'r gŵys, lle roedd yr aradr yn troi', sef 'headland of a ploughed field' (nid 'headland' 'promontory', sylwer). O dipyn i beth fe ddaeth *talar* i olygu 'boundary' hefyd.

Prestigious Place-Name Grant

We are delighted to note that the AHRC has awarded a substantial grant to the Universities of Nottingham and Wales in order to complete work on the EPNS survey of Shropshire place-names. At the death of Dr Margaret Gelling in 2009, six volumes, covering two-thirds of the county, had been completed. The new project will run for four years from January 2013 and will produce a further four volumes. One of these will concentrate on the areas around Oswestry and Clun in the west of the county, where Welsh settlement-names and field-names abound, and an extensive introduction will set this material in its linguistic and historical context. This part of the work will be directed by Dr David Parsons, at the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies at Aberystwyth. The study will incorporate a revision of *Welsh Place-Names in Shropshire* by Richard Morgan, of Glamorgan Archives, who is advising the project.

Oops!

A plan to create a Marine Conservation Zone off 'Penllyn' was announced in the Liverpool Daily Post (17 May 2012). The five land-locked parishes of Penllyn are Llanuwchllyn, Llangywer, Llanycil, Llanfor and Llandderfel, around Llyn Tegid (Bala Lake). With no sea, only a lake, nearby, this reminded one of the Swiss Navy. Yes there is one apparently, with some lake patrol boats. But no, 'Penllyn' was a mistake for 'Pen Llŷn', the Llŷn Peninsula, pronounced and written completely differently.

The Cambrian News, however, had some spare 'ŷ's, so they determined to use them unnecessarily, printing 'Llŷn Fanod' more than once instead of 'Llyn Fanod' in a lifestyle article on 5 September 2012.


Will they ever learn? Let us know if they don't.



Llabwst

In our last Newsletter Twm Elias asked for an explanation of *Llabwst* as the name of a farm near Rhoslefain. The word usually means 'a clumsy person or lout'. In Llangelynnin church nearby, a church well worth visiting by the way, you will see the name 'David Lloyd Llabwst Gent' on the back of one of the benches or open-backed pews put there during the restoration of 1823. The farm name was obviously still the same then but the Hearth Tax of 1662 for Bodgadvan lists 'Hugh ap Rh. ap Owen[,] Prysg y llabwst' (*Journal of the Merioneth Historical Society* ii. 30). This is unaccountably listed in the Melville Richards Archive without a date under the other Llangelynnin in Caernarfonshire, as is a similar record in the Public Record Office, dated 1592. The first element is therefore *prysg* 'copse, grove, thicket', but we shall probably never know who the *llabwst* was.

Honour for Place-Name Book



This year's Wales Book of the Year event saw some changes. In both English and Welsh, categories of poetry, fiction, and creative non-fiction were introduced for the first time. In the creative non-fiction section the short list comprised *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985* by Alan Llwyd, *John Morris-Jones* by Allan James, and *Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd* by Glenda Carr (ISBN: 978-1-907424-27-4; Gwasg y Bwthyn, Caernarfon; £10.95).

The inclusion of the latter, though well-deserved, was somewhat unexpected. Books on place-names are not normally considered for literary prizes. But this does not mean that this book is any the less scholarly for that. The Welsh-speaking world already knows of Glenda Carr for her work on William Owen Pughe, the influential 18-19 century lexicographer and antiquarian. She later turned her scholastic skills to research place-names and gained a PhD on the names of the houses and fields of five parishes in Arfon, and has now selected and extended this to record and comment on some of the farm-, house-, and field-names of a larger area in an eminently readable manner, bringing into her commentary many interesting references to history and tradition. This is only a short notice to draw the attention of readers to this book. For the place-name enthusiast, this concentration on the names of smaller units will be an attraction. Others will take a particular interest in the names of Caernarfonshire. Although Glenda Carr's book did not go on to win in its category, the fact that it reached the short list at all is a feather in her cap, a filip to Welsh place-name studies and a matter of congratulation from us all.

Place-names of the Celtic Countries

The 2009 conference of the Celtic Congress, held in Sligo, Ireland, had as its theme the place-names of the Celtic countries. Its transactions have just been published as a book of essays in English by Simon Taylor (Scotland), Jean-Yves Le Moing (Brittany), Hywel Wyn Owen (Wales), Art Ó Maolfabhail (Ireland), Craig Weatherhill (Cornwall), George Broderick (Isle of Man), and Jean-Yves Le Moing (multilingual glossary of place-names), entitled *Logainmneacha / Place-Names* and edited by Marion Gunn (ISBN 978-1-899082-04-9; eGteco; €35).

I'ch Dyddiadur

- 6 Hydref 2012 - Cynhadledd Flynyddol CELIC, Lecwydd, Caerdydd
- 10 Hydref 2012 - Darlith Goffa Merfyn Williams, Plas Tan y Bwlch, am 7.30 pm
- 5 Hydref 2013 - Cynhadledd Flynyddol CELIC, Bangor

Save the date

- 6 October 2012 - WPNS Annual Conference, Leckwith, Cardiff
- 10 October 2012 - Merfyn Williams Memorial Lecture, Plas Tan y Bwlch, at 7.30 pm (in Welsh)
- 5 October 2013 - WPNS Annual Conference, Bangor